Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach**

**Ysgol Y Gwendraeth**
**Heol Cwmmawr**
**Drefach**
**Llanelli**
**SA14 7AB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2023

# Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Ebrill 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo, yn hapus ac yn mwynhau cymryd rhan wrth chwarae a dysgu. Maent yn hyderus ac yn ymgysylltu'n llwyr yn eu gweithgareddau. Maent wedi datblygu cydberthnasau cryf â'u cyfoedion. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus a chânt gyfle i wneud dewisiadau.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yn briodol i hyrwyddo diogelwch, llesiant a ffyrdd iach o fyw. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn cynnig cyfleoedd i danio eu diddordebau. Mae'r staff yn ymateb i anghenion llawer o'r plant ac yn gwrando ar eu safbwyntiau. Maent yn cynllunio'n briodol i sicrhau cynnydd unigol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn gosod mesurau i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig sylfaen adnoddau sy'n bodloni gofynion unigol a chyfnodau datblygiad y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio yn ddiogel. Mae ganddynt bartneriaethau da gyda'u rhieni, y gymuned ac ysgolion cyfagos.

| **Llesiant** | **Da** |
| --- | --- |

Mae'r plant yn fodlon eu byd, wedi setlo ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae'n amlwg bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn; er enghraifft, yn ystod yr ymweliad, gwelsom y plant yn mwynhau amser cylch wrth iddynt eistedd gyda'i gilydd a chymryd rhan. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad o ddydd i ddydd, gan symud o amgylch yn annibynnol ac yn hyderus. Er enghraifft, mae'r plant yn chwarae'n hapus yn yr awyr agored ac yn mwynhau chwrae gyda'r hambwrdd dŵr a symud o amgylch i ddewis o'r jygiau a'r pibellau. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd; roeddent yn gyfforddus yn ein cwmni a'n hapus ac yn hyderus i'n cynnwys mewn rhai gweithgareddau, er enghraifft yn y gegin fwd awyr agored.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol wrth iddynt chwarae a chydweithredu'n gyson. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan wrth chwarae gyda'i gilydd. Maent yn dechrau dysgu sut i gymryd eu tro a rhannu, gyda rhai angen cymorth gan y staff. Er enghraifft, pan roedd dau blentyn eisiau chwarae gyda'r tryc ar yr un pryd, gwnaethant chwarae gyda'i gilydd a rhannu'r tryc. Mae'r plant yn ddigon hyderus i fynd at y staff os bydd angen unrhyw beth arnynt a gwrandewir arnynt. Maent yn gwenu â balchder wrth gael eu canmol am eu gweithgaredd gwneud marciau gan aelod o'r staff.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o brofiadau sy'n addas i'w hoedran/datblygiad, er enghraifft, chwarae gyda thywod a dŵr, ardal grefftau a theganau adeiladu. Maent yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, sy'n eu galluogi i wneud pethau penodol drostynt eu hunain. Er enghraifft, mynd i'r toiled, golchi a sychu dwylo, casglu eu platiau a'u cwpanau eu hunain adeg amser byrbryd. Dengys y plant ddiddordeb yn eu chwarae a dysgu ac maent yn ymgysylltu am gyfnod rhesymol o amser. Caiff y plant eu hannog i wneud penderfyniadau unigol a chânt gyfleoedd i ddatrys problemau. Er enghraifft, wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau yn defnyddio'r glud i ludo darnau o bapur o wahanol liwiau i wneud collage.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r staff gofal yn dilyn y rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Yn ystod yr ymweliad, roedd y staff gofal yn gwisgo ffedogau a menig wrth drin bwyd, ac eto wrth newid cewynnau, gan ddilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer newid a chadw cofnodion. Mae'r holl staff yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith, gyda gweithdrefnau golchi dwylo a glanhau byrddau clir cyn ac ar ôl bwyta yn cael eu harfer gan bawb. Maent yn llenwi cofnodlyfrau damweiniau, er nad yw pob un wedi cael ei gydlofnodi gan y rhieni/gofalwyr. Mae'r staff gofal yn deall gweithdrefnau risgiau o ddydd i ddydd ac adolygu gweithdrefnau pan fo angen. Maent yn deall gofynion a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad, gyda bron pawb yn hyderus ynglŷn â phwy i gysylltu y tu allan i'r lleoliad.

Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag arferion dyddiol y lleoliad, gyda'r rhan fwyaf yn rhyngweithio yn ystod gweithgareddau. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u hwyliau a'u hanghenion. Maent yn gosod esiampl dda drwy fod yn fodelau rôl da gan annog y plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau neu i drafod a sgwrsio gyda phlant eraill. Mae'r rhyngweithio â'r staff gofal yn gadarnhaol ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i hyrwyddo hawliau'r plant, a gwelsom fod lleisiau'r plant yn cael eu parchu a'u clywed. Er enghraifft, pan na fyddai rhai o'r plant eisiau cymryd rhan yn ystod amser cofrestru ac amser cân.

Mae llawer o'r staff gofal yn gweithio i ddarparu amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu ac maent yn ymwybodol o ddatblygiad y plant. Cynllunnir gweithgareddau yn unol â sgiliau'r plant er mwyn sicrhau cynnydd yn eu datblygiad unigol. Yn ystod yr ymweliad, gwelsom dystiolaeth o weithgareddau pob un o'r plant. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o anghenion ychwanegol y plant ac yn deall sut i roi cymorth i'r rheiny, er enghraifft, lleferydd ac iaith.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r lleoliad mewn adeilad hunangynhwysol wrth ymyl neuadd y pentref. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd glân, cynnes a diogel ar y cyfan. Fodd bynnag mae ambell ardal o dan do yn edrych braidd yn flinedig ac wedi treulio. Mae gan y lleoliad lefel dda o ddiogelwch ac mae wedi'i gloi ar bob adeg, sy'n caniatáu i'r plant symud yn annibynnol o gwmpas yr ardal dan do a'r ardal awyr agored yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff asesiadau risg dyddiol a chyffredinol, yn ogystal ag asesiadau risg tân, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae llyfr ymwelwyr, rotâu, cofrestr y plant a chofnodion cofrestru yn eu lle, sy'n sicrhau diogelwch y plant a'r safle.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardaloedd dan do ac awyr agored yn ddiogel, ac yn cynnig amgylchedd pwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardaloedd tu fewn a thu allan yn hybu annibyniaeth y plant gan fod yr adnoddau a'r ddarpariaeth ar gael iddynt ac yn cael eu cadw o fewn cyrraedd pob plentyn. Mae gan y lleoliad ardaloedd sydd wedi'u diffinio'n dda, sy'n rhoi lle i storio gwaith papur cyfrinachol, ardal fwyta / cegin bwrpasol i baratoi byrbrydau a phrydau, ac i bob grŵp oedran ddod at ei gilydd ar gyfer prydau bwyd. Ni chaiff rhai ystafelloedd eu defnyddio ar hyn o bryd oherwydd nifer y plant sy'n mynychu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu dewis da o adnoddau i'r plant. Mae'r ardal chwarae awyr agored wedi'i datblygu a phrynwyd offer pren newydd, gan gynnwys canopi pob tywydd a chegin fwd. Mae'r gofod yn caniatáu i'r plant symud o gwmpas yn rhydd, ond caiff amser chwarae yn yr awyr agored ei neilltuo ac bydd y plant hŷn a'r plant iau yn mynd yno bob yn ail.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Digonol**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn wybodus iawn am eu cyfrifoldebau rheoleiddio ac yn drefnus wrth adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cael ei ddiweddaru ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i'r plant. Mae'r staff yn dilyn polisïau'r lleoliad, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a chyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Maent wedi cwblhau'r datganiad hunanasesu gwasanaeth. Maent hefyd wedi cwblhau eu hadolygiad blynyddol o ansawdd y gofal ac wedi ystyried barn y rhieni, y gofalwyr, y plant a'r staff. Mae gan yr arweinwyr gynllun clir o'r hyn y maent am ei wneud i wella'r lleoliad.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefnau recriwtio staff digonol. Yn ystod yr ymweliad, ni chyflwynwyd gwiriadau addasrwydd ar gyfer y staff i gyd, gan fod geirdaon a rhai dogfennau eraill ar goll o ffeiliau'r staff. Nodwyd bod hyn yn achos o ddiffyg cydymffurfio.  Fodd bynnag, rhoddwyd sylw i hyn gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystod yr arolygiad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gofnodion hanesyddol o gyfarfodydd goruchwylio gyda'r staff. Fodd bynnag, nid yw'r goruchwyliaethau mwy diweddar wedi'u cofnodi. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael cyfarfodydd un-i-un rheolaidd gyda'r person â gofal. Nid yw'r pwyllgor wedi cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda'r person â gofal.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydgysylltiau da gyda'r gymuned leol. Fodd bynnag, nid ydynt eto wedi ailsefydlu ymweliadau yn dilyn Covid-19. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir a bod eu plant yn mwynhau eu hamser yma.

.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw pob ffeil staff yn cynnwys dau eirda a'r holl ddogfennaeth ofynnol. Mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod yr holl ffeiliau staff yn gyflawn cyn dechrau cyflogaeth yn y lleoliad. | Cyflawnwyd |
| 16 | Adolygu ansawdd y gofal: Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sefydlu a chynnal system effeithiol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i'r plant yn flynyddol | Cyflawnwyd |
| 28 | Addasrwydd gweithwyr: Nid yw’r unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â’r rheoliad hwn gan nad yw wedi sicrhau dau eirda ar gyfer pob ymarferydd | Cyflawnwyd |
| 31 | Darparu gwybodaeth: Nid yw’r unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC am ddigwyddiadau penodol o dan y rheoliad hwn | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
| --- |
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod sesiynau goruchwylio yn cael eu ffurfioli a'u cofnodi'n rheolaidd ar gyfer yr holl staff gan gynnwys y person â gofal |
| Sicrhau bod pob cofnod damweiniau yn cael ei gydlofnodi gan y rhieni / gofalwyr. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/08/2023